ARSYLWI / NODIADAU MAES

Cofnod 1

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: 31/07/2023 , canol dydd cyn amser cinio, blwyddyn 8.
Ble a Phryd: Cyd-destun yr arsylwi – pwnc/MDPh, cyd-destun cyffredinol yr ystafell ddosbarth Digwyddodd y digwyddiad yma yng ngwers mathemateg dysgwyr blwyddyn 8.
Beth ddigwyddodd: disgrifiad manwl o'r digwyddiad critigol (gorau po fwyaf o fanylder er mwyn gallu cyfeirio ato yn eich gwaith diweddarach) Disgyblion yn dod i mewn i'r dosbarth ac yn cychwyn yn syth ar dasg gychwynnol sydd ar y bwrdd gwyn ar ddilyniannau a'r nfed term, defnyddio byrddau gwyn i ddangos atebion. Roedd yr athrawes yn rhoi pwynt clod i'r dysgwyr a oedd yn ateb yn gywir, parhaodd hyn trwy gydol y wers. Roedd yr athrawes wedi gofyn i wirfoddolwyr dosbarthu llyfrau mathemateg. Wrth symud ymlaen i'r brif dasg, esboniodd yr athrawes meini prawf llwyddiant y wers. Roedd y brif dasg yn ffocysu ar greu dilyniant eu hunain, gydag opsiynau o waith efydd, arian neu aur. Roedd pob opsiwn yn wahanol o ran lefel gallu, yn cynyddu mewn anhawster o efydd i aur. Wrth i'r dysgwyr dechrau ar y gwaith, dywedodd yr athrawes am y gwaith arian, 'os i chi'n ffeindio hyn yn anodd, falle mai angen chi ddechrau gydag efydd...mae'n build up neis.' Esboniodd yr athrawes taw cyfrifoldeb y dysgwyr oedd dewis pa un roeddent eisiau gwneud. Un plentyn yn ceisio denu sylw'r athrawes, ond nid oedd hi yn rhoi gormod o sylw iddo. Dysgwr yma yna yn chwarae dwli gyda dysgwr arall, wnaeth yr athrawes rhybuddio nhw 'oes rhaid i fi gael chat gyda chi tu allan?' Roedd un dysgwr wedi dweud bod y gwaith yn rhy hawdd, fe wnaeth yr athrawes ei annog i symud ymlaen i'r gwaith a oedd yn fwy heriol. Ar yr un pryd, mi roedd hi yn ei hatgoffa bod rhai o'r plant arall yn ffeindio'r gwaith yma yn fwy anodd. Ar un adeg, fe wnaeth hi fynd at un dysgwr er mwyn gallu esbonio'r gwaith eto yn un i un, roedd hyn yn sicrhau ei bod hi ddim yn gwastraffu amser gweddill y dosbarth neu yn denu eu ffocws nhw oddi wrth eu gwaith. Y dysgwr yma oedd ddim yn canolbwyntio yn gynharach yn y wers – dangos ei fod ddim wedi gwrando yn gynharach, nawr wedi drysu gyda'r gwaith. Dysgwr oedd yn dweud bod y gwaith yn rhy hawdd yn galw'r dysgwr arall yn 'stupid' gan ei fod ddim yn deall y gwaith.
Meysydd archwilio posibl: beth yn eich barn chi a allai fod "o dan yr wyneb" yn y digwyddiadau hyn? Pa lwybrau ymchwil gallech chi eu hystyried? Gwahaniaethu yn y dosbarth – defnyddio lefelau gwahanol o waith er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawnu gwaith ar ddiwedd y wers sydd ar lefel eu gallu nhw.
Nodiadau: unrhyw fanylion gallwch eu nodi (ydy hi'n amgylchedd prysur, ydy hi ar ôl cinio, oes llawer o bethau'n tynnu sylw'r cyfranogwyr, ydy cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn eglur – gorau po fwyaf o bethau y gallwch gyfeirio atynt yma) • 17 o ddysgwyr, un athrawes. • Sesiwn cyn cinio. • Roedd y dysgwyr i gyd wedi sylweddoli ar y camera yn syth – roeddent wedi cynhyrfu, ac efallai newidodd hyn eu hagwedd? • Cwestiwn ar y bwrdd yn syth – rhoi amser i edrych ac yna yn rhoi amserydd i'r atebion. • Defnyddio'r plant i ddosbarthu adnoddau e.e. byrddau gwyn bach. Roedd hyn yn arbed amser yn y wers.

- Cyfarfod y plant wrth y dros a'u rhoi nhw i eistedd mewn cynllun eistedd.
- Sicrhau bod y plant yn iawn – bys bawd i fyny, 'think, pair, share'.
  - Asesu ar gyfer dysgu
- Pwyntiau clod – annog nhw i geisio ateb mwy.
- Rhai plant yn absennol o'r wers – athrawes yn cael sgwrs gyda'r plant a oedd yn datgelu hyn.